Cytundebau Rhyngwladol: Y Goblygiadau i Gymru

Cytundebau a drafodwyd ar 4 Mawrth 2019

Crynodeb

Mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi mabwysiadu gweithdrefn ar gyfer trafod goblygiadau cytundebau rhyngwladol a lofnodwyd gan Lywodraeth y DU i Gymru.

Rydym yn canolbwyntio ar nodi lle mae cytundebau'n effeithio ar feysydd polisi y mae'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt.

Lle y bo hyn yn wir, rydym yn trafod a oes angen tynnu sylw'r Cynulliad cyfan at hyn, drwy adroddiad, neu ei nodi mewn papurau pwyllgor yn unig.

Ar 4 Mawrth 2019, trafodwyd deg cytundeb gennym. O'r deg cytundeb hynny, cytunwyd i adrodd ar dri oherwydd bod gennym bryderon nad ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru

yn ddigonol ar y cytundebau hyn cyn iddynt gael eu llofnodi gan Lywodraeth y DU.

Cyflwyniad

1. Ar 4 Mawrth 2019, trafodwyd deg cytundeb rhyngwladol gennym a lofnodwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU.

2. Dyma'r cytundebau a drafodwyd gennym:

- Cytundeb yn sefydlu cymdeithas rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Chile ('y cytundeb rhwng y DU a Chile').
- Cytundeb yn sefydlu Cytundeb Partneriaeth Economaidd rhwng Gwladwriaethau Dwyrain a De Affrica a Theyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon ('y cytundeb rhwng Dwyrain a De Affrica a'r DU').
- Cytundeb Masnach Rydd rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Theyrnas Denmarc mewn perthynas â'r Ynysoedd Ffaröe ('y cytundeb rhwng y DU a'r Ynysoedd Ffaröe').
- Y DU/Seland Newydd: Cytundeb ar Gydnabyddiaeth Gilyddol mewn perthynas ag Asesiad Cydymffurfiaeth.
- Y DU/Awstralia: Cytundeb ar Gydnabyddiaeth Gilyddol mewn perthynas ag Asesiad Cydymffurfiaeth, Tystysgrifau a Marciau.
- Y DU/Chile: Cytundeb ar Fasnach mewn Cynhyrchion Organig.
- Cytundeb Trafnidiaeth Ffyrdd gyda Serbia.
- Cytundeb Trafnidiaeth Ffyrdd gyda Kasakstan.
- Cytundeb Trafnidiaeth Ffyrdd gyda'r Swistir.
- Cytundeb Hedfan gyda'r Swistir.

3. Cytunwyd i gyflwyno adroddiad ar dri o'r cytundebau a drafodwyd er mwyn tynnu sylw at bryderon a godwyd ynghylch ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig.

4. Y rhain yw'r canlynol:

- Y cytundeb cymdeithas rhwng y DU a Chile;

- Y Cytundeb Partneriaeth Economaidd rhwng y DU a Dwyrain a De Affrica;
- Y cytundeb masnach rydd rhwng y DU a'r Ynysoedd Ffaröe.

5. Darperir ein hasesiad a'n casgliadau ar y tri chytundeb hyn yn yr adroddiad hwn.

Nodyn ar y gwaith hwn

6. Dim ond yn ddiweddar y dechreuwyd ar ein gwaith o asesu goblygiadau cytundebau rhyngwladol y DU i Gymru.

7. Bydd rhagor o fanylion am ein dull gweithredu'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan yn y dyfodol agos.

8. Yn y cyfamser, dylech anfon eich cwestiynau at Glerc y Pwyllgor, SeneddMADY@cynulliad.cymru.

1. Cytundeb yn sefydlu cymdeithas rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Chile ('y cytundeb rhwng y DU a Chile')

Y cefndir

1. Mae'r cytundeb Cymdeithas rhwng y DU a Chile yn **gytundeb parhad masnach**.

2. Mae testun y cytundebau a'r deunyddiau esboniadol cysylltiedig a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU ar gael ar-lein.

3. Gosodwyd y cytundeb gerbron Senedd y DU ar 6 Chwefror a daw cyfnod 21 diwrnod y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu i ben ar 14 Mawrth.

Asesiad cyfreithiol

A yw'r cytundeb yn ymwneud â materion o fewn cymhwysedd y Cynulliad?
Ydy, **mae'r cytundeb yn ymwneud â materion o fewn cymhwysedd y Cynulliad** gan ei fod yn cwmpasu mesurau iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion, gan gynnwys safonau bwyd a safonau lles anifeiliaid, y gallai fod angen i'r Cynulliad eu gweithredu.

Asesiad polisi

A oes goblygiadau polisi i Gymru?
Oes, er eu bod yn gymharol fach fel y manylir arnynt yn yr adran hon.

4. Mae Chile yn safle 65 o ran partneriaid masnachu mwyaf y DU, sy'n rhoi cyfrif am 0.1 y cant o gyfanswm masnach y DU. £1.8 biliwn oedd cyfanswm y fasnach mewn nwyddau a gwasanaethau rhwng y DU a Chile yn 2017. Yn 2017, £0.9 biliwn oedd allforion y DU i Chile, gan ei rhoi yn safle 61 o ran marchnadoedd allforio mwyaf y DU (yn rhoi cyfrif am 0.2 y cant o holl allforion y DU). £0.8 biliwn oedd

mewnforion y DU o Chile, gan ei rhoi yn safle 66 o ran ffynonellau mewnforio mwyaf y DU (sy'n rhoi cyfrif am 0.1 y cant o holl fewnforion y DU).

5. Roedd y prif nwyddau a gwasanaethau a allforiwyd o'r DU i Chile yn 2017 yn cynnwys y canlynol:

- Peiriannau a chyfarpar mecanyddol - £230 miliwn;
- Gwasanaethau teithio - £119 miliwn;
- Cerbydau heblaw am stoc rheilffyrdd neu dramffyrdd - £93 miliwn.

6. Dyma'r prif nwyddau a gwasanaethau a fewnforiwyd o Chile i'r DU yn 2017:

- Ffrwythau a chnau bwytadwy - £254 miliwn;
- Diodydd, gwirodydd a finegr - £180 miliwn;
- Peiriannau a chyfarpar mecanyddol - £125 miliwn.

7. **Mae masnach rhwng Cymru a Chile hefyd yn gymharol fach, gyda gwerth** £13.9 miliwn o fasnach mewn nwyddau rhwng y ddwy wlad **yn 2017, sy'n cynrychioli 0.04 y cant o holl fasnach Cymru. £5.2 miliwn oedd allforion nwyddau o Gymru i Chile yn 2017, ac £8.7 miliwn oedd mewnforion nwyddau o Chile. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael o 2015 yn dangos bod** allforion gwasanaeth Cymru **i Chile hefyd ar lefelau cymharol isel.**

8. Bydd y tariffau ar nwyddau rhwng y DU a Chile yn parhau i fod yr un peth â'r rhai sydd mewn grym o dan y cytundeb rhwng yr UE a Chile, ac eithrio maint y cwotâu cyfradd tariff ar gyfer cynhyrchion penodol. Mae'r newidiadau i'r cwotâu cyfradd tariff yn cwmpasu mewnforion cig y DU (yn enwedig dofednod), pysgod a chynhyrchion bwyd eraill. Maent hefyd yn cwmpasu allforion caws, pysgod, cegddu ac eog y DU. Mae'r rhain yn seiliedig ar dystiolaeth megis defnydd hanesyddol o'r cwotâu a data llif masnach. Mae'r cynnydd blynyddol cytunedig yn swm cwota'r DU yn gyson â'r cynnydd blynyddol yn swm y cwota yn y cytundeb rhwng yr UE a Chile.

9. **O ran rheolau tarddiad, gellir cronni deunyddiau'r UE yn allforion y DU a Chile i'w gilydd.** Ymhellach, gellir cydnabod trefniadau prosesu'r UE yn allforion y DU i

Chile. Mae'r trefniadau hyn yn amodol ar fodloni amodau penodol a nodir yn y cytundeb.

10. Mae Arsyllfa Polisi Masnach Prifysgol Sussex wedi nodi dadansoddiad o gymalau gwlad fwyaf ffafriol ym mhob un o gytundebau'r UE yr hoffai'r DU barhau â hwy. **Nid oes cymalau gwlad fwyaf ffafriol yn y cytundeb a fyddai'n effeithio ar unrhyw un o gytundebau masnach rydd eraill y DU.**

11. Yn sgil y cytundeb masnach rhwng yr UE a Chile, roedd angen adolygu trefniadau rhyddfrydoli masnach ymhellach o ran cynhyrchion amaethyddol dair blynedd ar ôl iddynt ddod i rym. Mae'r cytundeb rhwng y DU a Chile yn addasu hyn mewn dwy ffordd – drwy ostwng y cyfnod ar gyfer adolygiad masnach o dair blynedd i ddwy flynedd; a chanolbwyntio'r adolygiad ar weinyddu a defnyddio'r cwotâu cyfradd tariff. Hefyd, mae'r DU a Chile wedi ychwanegu cymal sy'n eu hymrwymo i drafod eu perthynas fasnachu bob dwy flynedd.

12. **Hefyd, gwnaed newidiadau bach, nad ydynt yn rhai o sylwedd i ddarpariaethau iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion yn y cytundeb rhwng yr UE a Chile**. Yn y bôn, mae darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r DU hysbysu Chile o'i hawdurdodau cymwys sy'n ymwneud â darpariaethau iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion pan fydd y cytundeb rhwng y DU a Chile yn dod i rym.

13. I gloi, roedd masnach mewn nwyddau rhwng Cymru a Chile yn cynrychioli 0.04 y cant o gyfanswm masnach Cymru mewn nwyddau yn 2017, ac mae allforion gwasanaeth Cymru i Chile hefyd ar lefel isel iawn. Y prif gynhyrchion bwyd a diod o Chile sy'n cael eu mewnforio gan y DU yw ffrwythau a llysiau a diodydd. Mae'r newidiadau i'r cytundeb hwn yn gymharol fach, gyda rhai newidiadau i'r cwotâu cyfradd tariff a newidiadau eraill i ddarpariaethau iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion, ac i amserlenni ar gyfer adolygiadau masnach mewn cynhyrchion amaethyddol, y cwotâu cyfradd tariff a'r berthynas fasnachu gyffredinol.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

14. Mae Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, yn ei llythyr dyddiedig 26 Chwefror 2019, at y Pwyllgor yn nodi perthynas well rhwng yr Adran Masnach Ryngwladol a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â llunio'r Cytundebau Parhad Masnach.

15. Fodd bynnag, o ran y cytundeb rhwng y DU a Chile, ymddengys nad oedd gan Lywodraeth Cymru fynediad at destun drafft y cytundeb cyn iddo gael ei lofnodi.

Safbwyntiau eraill

16. Mae Pwyllgor UE Tŷ'r Arglwyddi wedi adrodd ar y cytundeb hwn, a daeth i'r casgliad a ganlyn:

> "We draw special attention to the UK-Chile Association Agreement, on the grounds that:
>
> - It is politically and legally important, and gives rise to issues of public policy that the House may wish to debate prior to ratification; and
> - Further consultation would be appropriate, including with the devolved administrations."

17. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi ei fod wedi cael gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban sy'n awgrymu eu bod o'r farn bod lefel yr ymgynghoriad yn annigonol.

Casgliadau

Rydym yn dod i'r casgliad **nad oes angen cymryd rhagor o gamau mewn perthynas â'r cytundeb hwn**.

Fodd bynnag, wrth adrodd ar ein gwaith i'r Cynulliad, rydym yn nodi casgliadau Pwyllgor UE Tŷ'r Arglwyddi mewn perthynas â'r cytundeb hwn ac rydym yn cefnogi ei alwad i ymgynghori ymhellach â'r gweinyddiaethau datganoledig.

Rydym yn rhannu pryder Pwyllgor yr UE na rannwyd testun drafft y cytundeb â Llywodraeth Cymru cyn iddo gael ei lofnodi. Mae'n hollbwysig bod Llywodraeth Cymru yn cael y cyfle i drafod testun cytundebau fel y gall gyfrannu'n ystyrlon at ddatblygu cytundebau a'u gweithredu yn y pen draw.

Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn rhannu testun cytundebau â Llywodraeth Cymru yn y dyfodol cyn iddynt gael eu llofnodi.

Yn ychwanegol, rydym yn credu ei bod yn bwysig bod awdurdodau Cymru yn cael eu cynnwys yn yr awdurdodau cymwys ar gyfer darpariaethau iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion, i'w hysbysu i Chile.

2. Cytundeb yn sefydlu Cytundeb Partneriaeth Economaidd rhwng Gwladwriaethau Dwyrain a De Affrica a Theyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon ('y cytundeb rhwng Dwyrain a De Affrica a'r DU')

Y cefndir

1. Mae'r Cytundeb Partneriaeth Economaidd rhwng Dwyrain a De Affrica a'r DU yn **gytundeb parhad masnach**. Mae'n cynnwys Madagascar, Mauritius, Seychelles, Zimbabwe, Comoros, a Zambia fel partïon i'r cytundeb.

2. Mae testun y cytundebau a'r deunyddiau esboniadol cysylltiedig a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU ar gael ar-lein.

3. Gosodwyd y cytundeb gerbron Senedd y DU ar 6 Chwefror a daw cyfnod 21 diwrnod y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu i ben ar 14 Mawrth.

Asesiad cyfreithiol

A yw'r cytundeb yn ymwneud â materion o fewn cymhwysedd y Cynulliad?
Ydy, mae'r cytundeb yn ymwneud â materion o fewn cymhwysedd y Cynulliad gan ei fod yn cwmpasu cynhyrchion bwyd, y gallai fod angen i'r Cynulliad eu gweithredu. Mae'r Cytundeb yn cynnwys cymal ar ehangu – h.y. cymal yn rhestru meysydd ar gyfer negodiadau yn y dyfodol i ehangu'r cytundeb. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd polisi datganoledig mesurau iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion ac amaethyddiaeth.

Asesiad polisi

A oes goblygiadau polisi i Gymru?
Oes, er eu bod yn gymharol fach fel y manylir arnynt yn yr adran hon.

4. Mae cytundebau partneriaeth economaidd yn gytundebau masnach sy'n canolbwyntio ar ddatblygu er mwyn hyrwyddo mwy o fasnach a buddsoddiad. Maent yn cyfrannu at dwf cynaliadwy a lleihau tlodi mewn gwledydd datblygol. Yn y Cytundeb Partneriaeth Economaidd rhwng Dwyrain a De Affrica a'r DU, mae'r DU yn ymrwymo i ddarparu mynediad di-doll a heb gwota at nwyddau o wladwriaethau Dwyrain a De Affrica ar unwaith. Yn gyfnewid, mae'r gwladwriaethau hyn yn ymrwymo i drefniadau rhyddfrydoli tariff mwy graddol. Fodd bynnag, mae cynhyrchion sensitif wedi'u heithrio rhag trefniadau rhyddfrydoli llawn.

5. £1.5 biliwn oedd cyfanswm y fasnach mewn nwyddau a gwasanaethau rhwng y DU a Madagascar, Mauritius, Seychelles a Zimbabwe ('y rhanbarth') yn 2017, sef tua 0.1 y cant o gyfanswm masnach y DU. Dyma'r prif nwyddau a oedd yn cael eu hallforio o'r DU i Ddwyrain a De Affrica yn 2017:

- Peiriannau a chyfarpar trydanol - £31 filiwn;
- Peiriannau a chyfarpar mecanyddol - £28 miliwn;
- Cerbydau heblaw am stoc rheilffyrdd neu dramffyrdd - £27 miliwn

6. Dyma'r prif nwyddau a oedd yn cael eu mewnforio o Ddwyrain a De Affrica i'r DU yn 2017:

- Cig a physgod wedi'u paratoi - £111 filiwn;
- Dillad (wedi'u gwau) - £86 miliwn;
- Metelau a cherrig gwerthfawr - £62 filiwn

7. **Mae masnach rhwng Cymru a Dwyrain a De Affrica hefyd yn gymharol fach**, gyda masnach mewn nwyddau'n werth £5.8 miliwn yn 2017, sy'n cynrychioli 0.02 y cant o holl fasnach Cymru. £1.1 miliwn oedd cyfanswm yr allforion nwyddau o Gymru i Ddwyrain a De Affrica yn 2017, a £4.7 miliwn oedd cyfanswm y mewnforion nwyddau o Ddwyrain a De Affrica. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael o 2015 yn dangos bod allforion gwasanaeth Cymru i Ddwyrain a De Affrica hefyd ar lefelau cymharol isel.

8. **Mae'r cytundeb rhwng y DU a Dwyrain a De Affrica yn caniatáu i gynnwys a threfniadau prosesu'r UE gael eu cronni mewn allforion i'w gilydd.** Mae'r trefniadau cronni wedi'u nodi'n fanwl yn y Teitl II (Diffiniad o gysyniad tarddiad cynhyrchion) o Brotocol y Rheolau Tarddiad (Saesneg yn unig) ac yn amodol ar fodloni'r amodau a nodir yn y cytundeb.

9. **Mae'r rhanddirymiadau a gynhwysir yn rhan y Rheolau Tarddiad o gytundebau masnach hefyd yn caniatáu i nifer o linellau cynnyrch penodol gael eu hallforio o dan reol tarddiad fwy trugarog, os cytunir ar hyn gan bwyllgor a sefydlir gan y cytundeb.** Cytunwyd ar y cwotâu rhanddirymu awtomatig yn y Cytundeb Partneriaeth Economaidd presennol rhwng yr UE a Dwyrain a De Affrica. Maent yn cynnwys cwotâu i mewn (o Ddwyrain a De Affrica i'r UE) ar gyfer cynhyrchion penodol, tiwna tun a lwynau tiwna yn yr achos hwn, a chytunwyd arnynt mewn perthynas â maint marchnadoedd yr UE a Dwyrain a De Affrica.

10. **Er mwyn cynnal y mynediad marchnad a gynigiwyd o dan y cwotâu gwreiddiol ar gyfer tiwna tun a lwynau tiwna, mae'r DU wedi diwygio'r cwotâu rhanddirymu awtomatig cytunedig gyda Dwyrain a De Affrica er mwyn adlewyrchu'r llif masnach dwyochrog yr arsylwyd arno yn ystod y blynyddoedd diwethaf** a'r ffaith bod y DU yn farchnad lai na 28 gwlad yr UE. Mae hyn yn sicrhau parhad o ran cyfleoedd mynediad marchnad i allforwyr o Ddwyrain a De Affrica ac yn caniatáu cwotâu i ddarparu ar gyfer y llif masnach dwyochrog yr arsylwyd arno yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

11. Lle y bo'n bosibl, mae maint y cwotâu rhanddirymu awtomatig wedi'i newid yn seiliedig ar 3 blynedd o ddata defnydd (h.y. ar gyfer tiwna tun). Er mwyn cadw'r cyfleoedd mynediad marchnad yn y dyfodol ar gyfer busnesau'r DU a Dwyrain a De Affrica, cytunwyd hefyd i ddefnyddio procsi yn seiliedig ar ddata llif masnach lle roedd data defnydd yn dangos bod masnach hanesyddol yn isel iawn (h.y. ar gyfer lwynau tiwna).

12. Mae ymrwymiadau ar dariffau ar gyfer y DU a gwledydd Dwyrain a De Affrica wedi'u trosglwyddo heb newidiadau. Mae hyn yn golygu y bydd dewisiadau tariff a gymhwysir gan y DU i nwyddau o Madagascar, Mauritius, Seychelles a Zimbabwe yn parhau i fod yr un peth â'r rhai a gymhwysir gan yr UE o dan y cytundeb presennol ac, yn yr un modd, y bydd y gwledydd hynny'n parhau i gymhwyso'r un dewisiadau i nwyddau o'r DU y maent yn eu cymhwyso i nwyddau o'r UE ar hyn o bryd. O ystyried bod y cytundeb yn darparu mynediad heb gwota at nwyddau o wladwriaethau Dwyrain a De Affrica, ni fu newidiadau i'r cwotâu cyfradd tariff yn y Cytundeb Partneriaeth Economaidd.

13. Mae'r Cytundeb Partneriaeth Economaidd rhwng y DU a Dwyrain a De Affrica yn copïo'r cymal yn y Cytundeb Partneriaeth Economaidd presennol gyda'r UE sy'n rhestru meysydd ar gyfer negodiadau yn y dyfodol i ehangu'r cytundeb. Mae'r rhain yn cynnwys masnach mewn gwasanaethau, rhwystrau technegol i fasnach, mesurau iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion, caffael, amaethyddiaeth a hawliau eiddo deallusol.

14. Mae Arsyllfa Polisi Masnach Prifysgol Sussex wedi nodi dadansoddiad o gymalau gwlad fwyaf ffafriol ym mhob un o gytundebau'r UE yr hoffai'r DU barhau â hwy. **Mae cymalau gwlad fwyaf ffafriol anghymesur yn y Cytundeb Partneriaeth Economaidd rhwng y DU a Dwyrain a De Affrica**. Mae'r rhain yn debyg i gymalau mewn cytundebau masnach eraill gyda gwledydd Affrica, y Caribî a'r Môr Tawel. Mae'r cytundebau hyn yn cynnwys cymalau gwlad fwyaf ffafriol anghymesur mewn perthynas â thollau tramor ar nwyddau. Yn wahanol i'r cytundebau cyfatebol i'r cytundeb cyffredinol ar dariffau a masnach, maent yn cael eu hestyn i gynnwys y dewisiadau a roddir gan y naill barti neu'r llall mewn cytundebau masnach yn y dyfodol, sy'n golygu, pe bai'r DU yn cytuno ar delerau gwell gyda gwlad arall neu floc heblaw am gyda Dwyrain a De Affrica, bydd yn rhaid iddi estyn y telerau gwell hynny i wledydd Dwyrain a De Affrica.

15. I grynhoi, roedd masnach rhwng Cymru a gwledydd Dwyrain a De Affrica yn cynrychioli 0.02 y cant o gyfanswm masnach Cymru mewn nwyddau yn 2017, ac mae allforion gwasanaeth Cymru i'r gwledydd hyn hefyd ar lefel isel iawn. **Mae'r newidiadau i'r cytundeb hwn yn gymharol fach**, er enghraifft newid maint y cwotâu rhanddirymu yn ôl data defnydd er mwyn cynnal mynediad marchnad ar gyfer gwledydd Dwyrain a De Affrica.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

16. Mae Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, yn ei llythyr dyddiedig 26 Chwefror 2019, at y Pwyllgor yn nodi perthynas well rhwng yr Adran Masnach Ryngwladol a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â llunio'r Cytundebau Parhad Masnach.

17. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r cytundeb rhwng Dwyrain a De Affrica a'r DU, ymddengys nad oedd gan Lywodraeth Cymru fynediad at destun drafft y cytundeb cyn iddo gael ei lofnodi.

Safbwyntiau eraill

18. Mae Pwyllgor UE Tŷ'r Arglwyddi wedi adrodd ar y cytundeb hwn, a daeth i'r casgliad a ganlyn:

> "We draw special attention to the UK-ESA Economic Partnership Agreement, on the grounds that:
>
> - It is politically and legally important, and gives rise to issues of public policy that the House may wish to debate prior to ratification;

- The explanatory material laid in support provides insufficient information on the agreement's policy objective and on how it will be implemented; and
- Further consultation would be appropriate, including with the devolved administrations."

19. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi ei fod wedi cael gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban sy'n awgrymu eu bod o'r farn bod lefel yr ymgynghoriad yn annigonol.

Casgliadau

Rydym yn dod i'r casgliad **nad oes angen cymryd rhagor o gamau mewn perthynas â'r cytundeb hwn**.

Fodd bynnag, wrth adrodd ar ein gwaith i'r Cynulliad, rydym yn nodi casgliadau Pwyllgor UE Tŷ'r Arglwyddi mewn perthynas â'r cytundeb hwn ac rydym yn cefnogi ei alwad i ymgynghori ymhellach â'r gweinyddiaethau datganoledig.

Rydym yn rhannu pryder Pwyllgor yr UE na rannwyd testun drafft y cytundeb â Llywodraeth Cymru cyn iddo gael ei lofnodi. Mae'n hollbwysig bod Llywodraeth Cymru yn cael y cyfle i drafod testun cytundebau fel y gall gyfrannu'n ystyrlon at ddatblygu cytundebau a'u gweithredu yn y pen draw.

Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn rhannu testun cytundebau â Llywodraeth Cymru yn y dyfodol cyn iddynt gael eu llofnodi.

Rydym yn nodi bod adroddiad Llywodraeth y DU i Senedd y DU ar y Cytundeb yn datgan (paragraff 59) y bydd yr amserlen ar gyfer y negodiadau hyn yn cael eu cytuno ar y cyd o fewn chwe mis i'r Cytundeb ddod i rym (mae'r amserlen 6 mis hon yn ddarpariaeth newydd yng nghytundeb Dwyrain a De Affrica, nad oes ganddo gynsail uniongyrchol yn y Cytundeb Partneriaeth Economaidd presennol).

Mae'n debyg bod cyfle yma i Lywodraeth Cymru wneud sylwadau am gael lle wrth y ford yn y negodiadau hynny, ac am fuddiannau Cymru ynddynt.

3. Cytundeb Masnach Rydd rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Theyrnas Denmarc mewn perthynas â'r Ynysoedd Ffaröe ('y cytundeb rhwng y DU a'r Ynysoedd Ffaröe')

Y cefndir

1. Mae'r cytundeb rhwng y DU a'r Ynysoedd Ffaröe yn **gytundeb parhad masnach**.

2. Mae testun y cytundebau a'r deunyddiau esboniadol cysylltiedig a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU ar gael ar-lein.

3. Gosodwyd y cytundeb gerbron Senedd y DU ar 6 Chwefror a daw cyfnod 21 diwrnod y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu i ben ar 14 Mawrth.

Asesiad cyfreithiol

A yw'r cytundeb yn ymwneud â materion o fewn cymhwysedd y Cynulliad?
Ydy, mae'r cytundeb yn ymwneud â materion o fewn cymhwysedd y Cynulliad gan ei fod yn cwmpasu mewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid, y gallai fod angen i'r Cynulliad eu gweithredu Mae hefyd yn ymdrin ag iechyd anifeiliaid, yn y protocol milfeddygol.

Asesiad polisi

A oes goblygiadau polisi i Gymru?
Oes, er eu bod yn gymharol fach fel y manylir arnynt yn yr adran hon.

4. Roedd yr Ynysoedd Ffaröe wedi dewis aros y tu allan i'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd pan ymunodd Denmarc â hi ym 1973. Fel y cyfryw, caiff y wlad ei thrin fel trydedd wlad, ac mae ganddi Gytundeb Masnach Rydd gyda'r UE, yn ogystal â chytundeb pysgodfeydd dwyochrog.

5. £236 miliwn oedd cyfanswm y fasnach mewn nwyddau a gwasanaethau rhwng y DU a'r Ynysoedd Ffaröe yn 2017, sef llai na 0.1 y cant o gyfanswm masnach y DU. Allforiodd y DU werth £6 miliwn o nwyddau a gwasanaethau i'r Ynysoedd Ffaröe yn 2017, a mewnforiodd werth £230 miliwn o nwyddau a gwasanaethau o'r Ynysoedd Ffaröe. Roedd y mwyafrif helaeth o'r fasnach hon yn fewnforion y DU o bysgod a chramenogion (£201.7 miliwn).

6. Nid yw data ar gyfer masnachu mewn nwyddau a gwasanaethau rhwng Cymru a'r Ynysoedd Ffaröe ar gael o'r setiau data cyhoeddedig oherwydd y swm isel o fasnach rhwng y ddwy ardal hyn sydd islaw'r Aelod-wladwriaethau.

7. **Bydd y tariffau ar nwyddau rhwng y DU a'r Ynysoedd Ffaröe yn parhau i fod yr un peth â'r rhai sydd ar waith o dan y cytundeb rhwng yr UE a'r Ynysoedd Ffaröe, ac eithrio maint y cwotâu cyfradd tariff ar gyfer cynhyrchion penodol.** Mae'r newidiadau i'r cwotâu cyfradd tariff yn cwmpasu mewnforion y DU o bysgod byw, pysgod cadw, cramenogion, molysgiaid, bwyd pysgod a chig defaid a geifr (dim ond 3 tunnell yw'r cwota ar gyfer hyn). Mae'r rhain yn seiliedig ar dystiolaeth megis defnydd hanesyddol o'r cwotâu, a data llif masnach. Mae'r cynnydd blynyddol cytunedig yn swm cwota'r DU yn gyson â'r cynnydd blynyddol yn swm y cwota yn y cytundeb rhwng yr UE a Chile.

8. **O ran rheolau tarddiad, gellir cronni deunyddiau'r UE mewn allforion o'r DU a'r Ynysoedd Ffaröe i'w gilydd.** Ymhellach, gellir cydnabod trefniadau prosesu'r UE yn allforion y DU i'r Ynysoedd Ffaröe. Mae'r trefniadau hyn yn amodol ar fodloni amodau penodol a nodir yn y cytundeb.

9. Gan nad yw'r DU wedi ymrwymo eto i gynnal ei safonau milfeddygol ar lefelau'r UE nes y penderfynir ar ei pherthynas â'r UE yn y dyfodol, o dan delerau cytundeb yr Ynysoedd Ffaröe â'r UE, ni all gydnabod bod safonau milfeddygol y DU yn gyfartal â safonau'r UE. Mae'r cytundeb rhwng y DU a'r Ynysoedd Ffaröe wedi ymgorffori darpariaethau'r Protocol Milfeddygol a nodir yn y cytundeb rhwng yr UE a'r Ynysoedd Ffaröe, ond hepgorwyd unrhyw gyfeiriad at gysoni â safonau'r UE.

10. Mae Arsyllfa Polisi Masnach Prifysgol Sussex wedi nodi dadansoddiad o gymalau gwlad fwyaf ffafriol ym mhob un o gytundebau'r UE yr hoffai'r DU barhau â hwy. **Mae gan yr Ynysoedd Ffaröe gymalau gwlad fwyaf ffafriol cyfyngedig yn ei chytundeb â'r UE.** Mae'r rhain yn ailadrodd y cymalau gwlad fwyaf ffafriol yng Nghytundeb Cyffredinol Sefydliad Masnach y Byd ar Fasnach mewn Gwasanaethau. Mae'r rhwymedigaethau'n gymwys i benodau ar yr hawl i sefydlu a chyflenwi gwasanaethau, ond nid ydynt yn gymwys i'r dewisiadau a roddwyd mewn cytundebau masnach eraill.

11. I grynhoi, roedd masnach rhwng y DU a'r Ynysoedd Ffaröe yn cynrychioli llai na 0.1 y cant o gyfanswm masnach y DU mewn nwyddau a gwasanaethau yn 2017. **Mae'r newidiadau i'r cytundeb hwn yn gymharol fach**, er enghraifft, mae newidiadau i'r cwotâu cyfradd tariff yn seiliedig ar ddefnydd hanesyddol o'r cwotâu a data llif masnach.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

12. Mae Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, yn ei llythyr dyddiedig 26 Chwefror 2019, at y Pwyllgor yn nodi perthynas well rhwng yr Adran Masnach Ryngwladol a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â llunio'r Cytundebau Parhad Masnach.

Safbwyntiau eraill

13. Mae Pwyllgor UE Tŷ'r Arglwyddi wedi adrodd ar y cytundeb hwn, a daeth i'r casgliad a ganlyn:

> "We draw special attention to the Free Trade Agreement between the United Kingdom and the Faroe Islands, on the grounds that:
>
> - It is politically important, and gives rise to issues of public policy that the House may wish to debate prior to ratification;
> - The explanatory material laid in support provides insufficient information on the agreement's policy objective and on how it will be implemented; and
> - Further consultation would be appropriate, including with the devolved administrations."

Casgliadau

Rydym yn dod i'r casgliad **nad oes angen cymryd rhagor o gamau mewn perthynas â'r cytundeb hwn**.

Fodd bynnag, wrth adrodd ar ein gwaith i'r Cynulliad, rydym yn nodi casgliadau Pwyllgor UE Tŷ'r Arglwyddi mewn perthynas â'r cytundeb hwn ac rydym yn cefnogi ei alwad i ymgynghori ymhellach â'r gweinyddiaethau datganoledig.

Rydym yn rhannu pryder Pwyllgor yr UE na rannwyd testun drafft y cytundeb â Llywodraeth Cymru cyn iddo gael ei lofnodi. Mae'n hollbwysig bod Llywodraeth

Cymru yn cael y cyfle i drafod testun cytundebau fel y gall gyfrannu'n ystyrlon at ddatblygu cytundebau a'u gweithredu yn y pen draw.

Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn rhannu testun cytundebau â Llywodraeth Cymru yn y dyfodol cyn iddynt gael eu llofnodi.